Cyngor Tref Frenhinol Caernarfon

Cofnodion Pwyllgor Adloniant, 18/02/20

Yn bresennol: Y Cynghorwyr A.Hopcyn, E.R.Hughes (Cadeirydd), E.Lovgreen, K.Richards, R.Thomas

1. Ymddiheuriadau

Y Cynghorwyr D.L.Jones, M.Sarnacki

2. Datgan Buddiant Personol

Dim

3. Eitemau Brys (Cadeirydd/Clerc)

Cystadleuaeth Garddio

Nododd y Clerc ei fod wedi derbyn e-bost yn gofyn i'r Cyngor ystyried symud beirniadu Gerddi Caernarfon o wythnos ar ôl yr Eisteddfod Genedlaethol i wythnos olaf lawn fis Gorffennaf. Roedd y garddwyr yn meddwl fod y blodau wedi dechrau pylu erbyn mis Awst.

Penderfynwyd argymell i'r Cyngor i symud beirniadu Cystadleuaeth Gerddi Caernarfon o wythnos ar ôl yr Eisteddfod Genedlaethol i wythnos olaf lawn fis Gorffennaf.

4. Trefniadau Diwrnod Gŵyl Dewi

Dosbarthwyd rhestr waith ar yr Orymdaith Gŵyl Dewi, fydd yn cymryd lle ar ddydd Gwener, 28ain o Chwefror.

Trafodwyd beth oedd wedi ei wneud, a beth oedd eto angen i'w wneud.

Penderfynwyd bod y Clerc yn ymgorffori unrhyw sylwadau ymarferol ynglŷn â'r gweithrediadau i mewn i'r rhestr waith (unfrydol).

Gorffennodd y cyfarfod am 6.05 p.m.

Arwyddwyd _____

Dyddiad _____